Llafur

Cymdeithas Hanes Pobl Cymru

The Welsh People's History Society

Cylchlythyr **Gwanwyn / Haf 2009**

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Alun Burge

Y Gymdeithas a'r Wladwriaeth/a Chyflwr y Gymdeithas

Un o'r materion sydd wedi bod dan sylw ar sawl adeg, ac mewn amryw ffurf, ers i'r Gymdeithas gael ei sefydlu, yw ei pherthynas gyda cyrff statudol neu 'llywodraeth'. Rydym ar nifer o adegau wedi ystyried os y dylai'r Gymdeithas dderbyn grantiau gan Gyngor y Celfyddydau, neu geisio am statws elusennol. Mewn un cyfarfod pwyllgor cofiadwy, dyfynnodd Merfyn Jones, golygydd y Cylchgrawn ar y pryd, o gân Bob Dylan 'Absolutely Sweet Marie' gan ddweud "to live outside the law you must be honest" - penderfynwyd nad oeddem eisiau colli ein gallu i siarad yn rhydd ar faterion fel y gwelwyd yn briodol ac felly ni ddylid ceisio am statws elusennol.

Ddwywaith yn y flwyddyn ddiwethaf mae cymdeithas *Llafur* wedi mabwysiadu safiad sy'n ei chymryd y tu hwnt i'w gwaith arferol o gyhoeddi'r cylchgrawn a threfnu digwyddiadau, er mwyn ymateb i'r cyd-destun eang y mae'r Gymdeithas yn gweithio o'i fewn. Ym Mawrth 2009, penderfynodd y Pwyllgor y dylai *Llafur* brotestio yn erbyn cau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar y Sadyrnau. I lawer o aelodau *Llafur*, Dydd Sadwrn yw'r unig ddiwrnod pan y gallant ymweld ag Aberystwyth. Cyhoeddodd un aelod o'r Gymdeithas lyfr a seiliwyd yn sylweddol ar ymweliadau penwythnosol i'r Llyfrgell Genedlaethol. O hyn ymlaen, bydd y fath waith yn amhosib. O ganlyniad mae mynediad i'r casgliadau ymchwil pwysicaf yng Nghymru wedi ei wahardd i'r rheini (ohonom) sy'n gweithio o Ddydd Llun tan Ddydd Gwener - yn aml dyma'r unig le yng Nghymru sy'n cadw deunyddiau penodedig. Dywedwyd yn ystod trafodaeth y Pwyllgor mai'r unig Lyfrgell Genedlaethol arall nad sydd yn agor ar Ddydd Sadwrn yw Llyfrgell Indonesia. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhy bwysig i fod dan waharddiad - os ydych chi'n teimlo y dylai'r Llyfrgell fod ar agor, a fyddwch cystal â chysylltu â'r Llyfrgellydd Cenedlaethol i roi gwybod iddo.

Mater arall a drafodwyd gan y Pwyllgor yw penderfyniad y Gymdeithas i drafod gyda CyMAL, sy'n gyfrifol am lyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yng Nghymru, ynglŷn â'i waith o gyflenwi ymrwymiad polisi 'Cymru'n Un' y Llywodraeth i sefydlu Casgliad Hanes y Bobl. Daeth hyn i fodolaeth yn dilyn digwyddiad *Llafur* ar 1 Mawrth 2008, lle esboniodd Linda Tomos, Cyfarwyddwraig CyMAL, y cynlluniau cynnar ar gyfer y casgliad. Mae *Llafur*, felly, wedi bod yn cyd-weithio gyda chyrff megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cynrychiolwyd *Llafur* ar y Grŵp Ymgynghorol, y Grŵp Cynnwys a'r Grŵp Dysg. *Llafur* yw'r unig gorff ddi-statudol neu rhannol-statudol sydd wedi cymryd rhan yn y broses. Mae penderfyniadau o'r math hwn i gyd-weithio a thrafod yn rhai a ystyriwyd yn ddwfn, ac mae'r swyddogion wedi eu cadw dan adolygiad cyson dros y flwyddyn ddiwethaf. Serch hynny, mae 'Hanes y Bobl' mor ganolog i'n nod fel Cymdeithas nes y teimlwyd bod angen i ni gymryd rhan a cheisio dylanwadu ar weithrediad y polisi drwy helpu i ffurfio'r prosiect. Mae'r Pwyllgor yn parhau i gadw golwg dros hyn er mwyn sicrhau bod ein cyfraniad yn un gwerth chweil.

Ffenomen ddiddorol ddiweddar yw bod digwyddiadau hanes, tebyg i'r rhai a drefnwyd gan *Llafur*, nawr yn cael eu trefnu gan eraill, gyda nawdd neu grantiau i dalu'r costau. Rydym yn croesawu'r diddordeb ychwanegol hwn yn hanes cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol Cymru. Rydym yn ymwybodol o botensial ein hanes o fewn adfywiad, ac fel cefn i fentrau gyda sail da sy'n darganfod ffyrdd o ddefnyddio hanes teulu, cymuned neu ddiwydiant fel hwb economaidd. Rydym i'r un graddau yn wyliadwrus o rai elfennau, megis hyrwyddo 'treftadaeth', thema a ddefnyddiwyd gan Hywel Francis

wrth drefnu digwyddiad, ac ysgrifennu erthygl rybuddiol, yn enw *Llafur* dros ugain mlynedd yn ôl. Ffactor arall y dylid ei ystyried yw bod yna anfantais bosib i dderbyn cyllid, megis grantiau. Ynghŷd â'r peryg y bydd cyllid grant yn newid blaenoriaethau corfforaeth, mae'r safonau y seiliwyd cyllid grant arnynt yn newid, ac ar adegau mae hanes yn gallu diflannu o'r agenda. Mae *Llafur* wedi gweithio o fewn ei hadnoddau ei hun erioed, yn nhermau arian neu lafur. Mae *Llafur* yn gweithredu yn y traddodiad o gydymddibyniaeth. Mae ein ffurf ni o hunangymorth cynulliadol yn parhau i wasanaethu'r Gymdeithas yn dda. Dewisom i beidio chwilio am grantiau, nac i ddibynnu ar gyllideb o unrhyw ffynhonell arall oni bai am hynny yr ydym yn ei greu ein hun, yn bennaf trwy danysgrifiadau aelodaeth. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae *Llafur* wedi cynhyrchu Cylchgrawn ardderchog ac wedi trefnu pedwar digwyddiad gwych. Mae'r tanysgrifiad rhesymol iawn yma, ynghŷd ag ymdrechion y Pwyllgor, wedi cyflenwi costau'r cylchgrawn a'r digwyddiadau. Yn hollbwysig, mae'r rhan fwyaf o swyddogion y Gymdeithas dan 40 oed, ac yn cynnwys cyfuniad o'r academaidd a'r an-academaidd sydd wedi parhau trwy oes y Gymdeithas. Ar un adeg dywedodd Neil Evans, un o'n cyd-olygyddion cyfredol, ein bod yn meddwl ein bod yn gallu newid y byd trwy gymdeithas hanes. Er i'r byd ddangos graddau o wrthwynebiad, mae'r awydd i gyfrannu at y nod yma yn parhau.

Newyddion y Gymdeithas

Ers rhifyn diwethaf y cylchlythyr, mae'r gymdeithas wedi cynnal dau ddigwyddiad a dderbyniwyd yn dda iawn. Y cyntaf oedd dathliad o Robert Owen a gynhaliwyd yn Amgueddfa Pontypridd, a'r ail oedd ysgol undydd ar chwaraeon a hamdden yng Nghymru fodern a gafodd ei chynnal yn y Stadiwm SWALEC newydd. Ceir adroddiad ar y ddau ddigwyddiad isod.

Mae ein digwyddiad cyntaf eleni yn agosáu yn gyflym, ac fe fydd yn cael ei gynnal ar 16 Mai. Teimlodd y Gymdeithas ei bod hi'n bwysig i ni gofio gweithgareddau Mudiad y Siartwyr yng Nghymru, gan ei bod yn 160 mlynedd ers Terfysg Casnewydd. Rydym wedi penderfynu cynnal ein ysgol undydd ar Siartiaeth yn Llanidloes, magwrfa arall gweithgaredd Siartaidd ym 1839. Bydd y siaradwyr yn cynnwys yr haneswyr uchel eu parch ym maes Siartiaeth, Owen Ashton, o Brifysgol Swydd Stafford a Malcolm Chase, o Brifysgol Leeds.

Bydd ein digwyddiad blynyddol ym mis Tachwedd yn gael ei gynnal yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Pwrpas yr ysgol undydd yma yw archwilio gwleidyddiaeth, democratiaeth a chymdeithas Cymru fodern. Bydd manylion y digwyddiad hwn yn cael ei hysbysebu yn yr hydref.

Sefydlwyd darlith goffa flynyddol er cof anrhydeddus am Ursula Masson, aelod ffyddlon o *Llafur* a golygydd y cylchgrawn, gan Jane Aaron ym Mhrifysgol Morgannwg, i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol Menywod. Traddodwyd y ddarlith gyntaf gan Yr Athro Deirdre Beddoe, a chafwyd trafodaeth fywiog ynglŷn â chyfraniad menywod Cymru i wleidyddiaeth yn yr ugeinfed ganrif. Bu cynulleidfa deilwng i'r ddarlith a fu'n deyrnged addas i Ursula. Trefnwyd siaradwyr ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn barod; Yr Athro June Hannam yn 2010, ac Angela V. John yn 2011. Sefydlwyd Cronfa Goffa i ariannu'r darlithoedd sydd i ddod. Os hoffech anfon cyfraniad cysylltwch ag Anna Jenkins, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morgannwg, Pontypridd CF37 1DL.

Bydd aelodau'r gymdeithas yn falch o glywed fod Yr Athro Arglwydd Morgan, un o'n Is-Lywyddion, wedi ei wobrwyo â Medal Aur Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion yn Nhy'r Arglwyddi ar 2 Mawrth am ei wasanaeth i Hanes Cymru.

Derbyniwyd y darn canlynol gan Joe England

Nodiadau o'r Dyddiadur....

Dydd Sadwrn 14 Mawrth: Gyrrais i Neuadd Les Onllwyn ar gyfer lansiad llyfr Hywel. Synfyfyriaf ar fethiant Cymru i ennill y pwyntiau yn erbyn Yr Eidal y prynhawn hwnnw, credaf y bydd yna tua 20 i 30 yn y lansiad. Mae yna gannoedd! Peidiwch byth â bychanu dawn trefnu Hywel. Mae'n noswaith o ganeuon, areithiau ac atgofion am y streic fawr a fu 25 mlynedd yn ôl: y ffrindiau a wnaed, y caledi a ddioddefwyd, yr arian a godwyd, y beichiau a ysgwyddwyd, y datblygiadau personol a ddarganfyddwyd ac a feithrinwyd. Tri AS - Hywel, Siân James a Peter Hain - siarad am undod, gwerthoedd a ranwyd, a chynnydd.

Does neb yn sôn am Thatcher yn ennill. Does neb yn sôn am y 337 swydd a gollwyd ddoe, Dydd Gwener yr 13eg, dros y bryn yn Hoover. Does neb yn sôn am yr anghyfartaledd amlwg rhwng bywydau'r rheini sy'n ymlafnio ymlaen yn Onllwyn a'r ASau fydd yn fuan yn ôl yn y cocŵn llygredig, San Steffan.

Wel, rwy'n sôn: wrth Peter Hain. Wedi pedwar deg mlynedd o weithredu rwyf wedi gadael y blaid, rwy'n

dweud. Rwy'n un o'r miloedd a yrrwyd allan gan Blair a 'Llafur Newydd'. Mae e'n derbyn fy mhwynt yn ochelgar. 'Bydd rhaid ail-adeiladu'r mudiad', meddai. Rwy'n cytuno. Ond gan bwy? Nid gan y rheini sydd wedi ei methu. Nid yw hanes ar ein hochr. Ond eto, gyda grym yr ewyllys, mae'r dyfodol yna i'w greu.

Dydd Mawrth 17 Mawrth. Does dim diwedd i'r llyfrau a ysgrifennir am Ferthyr. Rwy'n ystyried ysgrifennu un fy hun. Heddiw darllenaf y diweddaraf – *Real Merthyr* gan Mario Bassini. Mae'n adroddiad bywiog sy'n cwmpasu tir a droediwyd eisioes wedi ei gymysgu ag atgofion personol sy'n ychwanegu at flas y gyfrol. Yr hunangofiant gorau am Ferthyr yw *Unfinished Journey* gan Jack Jones sydd, ynghŷd â'i adroddiad ffuglennol o'r un deunydd yn *Black Parade*, yn cynnig hanesion lliwgar, mewn arddull hoffus, am ddatblygiad tref Merthyr a'i hochor giaidd. (Dylai'r naill neu'r llall o'r rhain fod yn Llyfrgell Cymru Dai Smith, os nad ydynt yn barod). Am gwrs carlam ar elfennau mwy noethlwm o beth mae Jones yn ei alw'n 'good old Merthyr' darllenwch y rhain ynghŷd â *Life on the Dole* gan Mervyn Jones a *A Bloody Good Friday* gan Desmond Barry. Yn hwyrach yn y dydd fe wnes i fynd i Amgueddfa Cyfarthfa ar gyfer araith ar Turner a draddodwyd gan fenyw o'r Tate. Bydd yr Amgueddfa yn cynnal arddangosfa o'i waith yn hwyrach yn y flwyddyn.

Digwyddiadau Diweddar Llafur

Robert Owen a'r Mudiad Cydweithredol yng Nghymru

Amgueddfa Pontypridd

6 Medi 2008

Trefnwyd ysgol undydd lwyddianus gan *Llafur* i nodi 150 mlynedd ers marwolaeth Robert Owen o'r Drenewydd, 'tad y Mudiad Cydweithredol'. Cafodd y digwyddiad ei gynnal yn Amgueddfa Pontypridd. Daeth tua 40 o bobl er gwaetha'r tywydd, ac fe'u gwobrwywyd am eu hymdrechion gyda phapurau ardderchog gan Brian Davies, Alun Burge, Roger Davies, Mervyn Wilson a Chris Williams. Cadeiriwyd y diwrnod gan Neil Evans.

Cafwyd papurau eang eu hystod yn archwilio rôl y Mudiad Cydweithredol o fewn Cymru, a bodolaeth canghennau cynnar o fewn yr ardal leol. Amlinellwyd bywyd cynnar Robert Owen yn Y Drenewydd gan Chris Williams; dilynwyd y papur hwnnw gan drafodaeth fywiog ar ei fagwraeth Gymraeg, ac os y cafodd hynny unrhyw effaith barhaol ar ei gymeriad. Dangoswyd ffilm ar waith y Mudiad Cydweithredol, ac amlinellwyd gwaith mwy diweddar y Gymdeithas Cydweithredol, yn enwedig o fewn addysg. Bu'n ddiwrnod pleserus iawn, a denwyd rhai aelodau newydd i *Llafur* nad oeddent wedi mynychu digwyddiadau yn y gorffennol.

Chwaraeon, rhyw a cymdeithas yng Nghymru

Stadiwm SWALEC, Gerddi Soffia, Caerdydd

Dydd Sadwrn 1 Tachwedd

Cynhaliwyd digwyddiad pleserus gan *Llafur* yn Stadiwm SWALEC. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Martin Johnes, Laura McAllister, Carolyn Hitt, Daniel Williams ac Andrew Hignell.

Agorwyd y diwrnod gan Yr Athro Gareth Williams, a amlinellodd hanesyddiaeth chwaraeon o fewn hanes Cymru. Parhawyd y drafodaeth ar chwaraeon o fewn hanes Cymru yng nghyflwyniad Martin Johnes. Edrychodd papurau eraill ar ddatblygiad criced yng Nghymru, trafodaeth ysgogol ar lenyddiaeth Cymru a phaffio, a dadansoddiad pryfoclyd o ran menywod Cymru ym myd chwaraeon. Cawsom bersbectif personol Carolyn Hitt ar fod yn ohebydd rygbi – menyw brin ym myd y dynion. Nododd fod un o'r gohebwyr eraill yn y gêm gyntaf y bu iddi ysgrifennu arni wedi dweud wrthi fel 'help llaw', 'Wales play in red'!

Dros ginio cafodd y cefnogwyr criced yn ein plith daith o amgylch y stadiwm newydd.

Digwyddiadau Llafur sydd i ddod


By Her Majesty's Command,

£100 REWARD

WHEREAS LEWIS HUMPHREYS, late of Llanidloes, Shoemaker, and THOMAS JERMAN, of the same place, Carpenter, were apprehended at Llanidloes on the 26th of April last, on a charge of Felony, and rescued by a Mob, and have since absconded;

THIS IS TO GIVE NOTICE, That the above Reward of

One Hundred POUNDS

will be paid to any Person who will reapprehend, or give such information as will lead to the re-apprehension, of the above-mentioned Persons; and that

FIFTY POUNDS

will be paid to any one who will reapprehend, or give such information as will lead to the reapprehension, of either of the said two Persons.

The said Lewis Humphreys (called John) is a Shoemaker, about 30 years of age, 5 feet 10 inches high, of dark forbidding countenance, somewhat high cheek bones and shoulders, fair dark hair, black whiskers, and probably wears a blue coat, striped trousers, and cap.

The said Thomas Jerman is a Carpenter, aged about 28, stands about 5 feet 8 inches high, stoutly made, has broad round shoulders and short thick neck, a round wide face, small eyes, and wide mouth; when last seen, had on a blue or brown coat, light-yellow cotton waistcoat with a sprig pattern upon it, white trousers with stripes on it, and lightcoloured cotton neckerchief. The fingers of his right hand are slightly contracted, and the third and fourth fingers of the left hand are much contracted,—Both are natives of Llanidloes.

The Reward above mentioned will be paid by the MAYOR OF LLANIDLOES, who is authorized by Her Majesty's SECRETARY OF STATE to offer the same.

Bydd *Ail-ymweld â Siartiaeth yng Nghymru* yn cael ei gynnal ar Ddydd Sadwrn 16 Mai 2009 yng Nghanolfan Cymunedol Llanidloes, Mount Lane, Llanidloes.

Siaradwyr yn cynnwys: Owen Ashton, Malcolm Chase a Joe England.

Mae'r digwyddiad yn dechrau am 11yb ac NID OES TÂL i fynychu. Estynnir croeso cynnes i bawb.

I archebu lle cysylltwch â Siân Williams, Ysgrifennydd Llafur, ebost: enquiries@llafur.org

Digwyddiadau o Ddiddordeb i Aelodau Llafur

15fed Cynhadledd Blynyddol WHN Gorllewin Lloegr a De Cymru

Gweithredu Menywod: Hanes a Phersbectifau Hanesyddol

Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf 2009, Prifysgol Cymru, Casnewydd (campws Caerllion)

Thema'r gynhadledd eleni yw menywod fel gweithredyddion trawsnewid ar hyd yr oesau. Gan gymryd golwg eang o'r term 'gweithredu', bydd croeso i bapurau ar faterion lle mae menywod wedi cymryd rhan weithredol, boed fel unigolion neu fel rhan o sefydliad (ffurfiol neu anffurfiol), i hybu trawsnewid gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol neu grefyddol. Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal er cof am ein cyn-gadeirydd Dr Ursula Masson. Gadawodd ei marwolaeth yn 2008 fwlch enfawr yn ein cymdeithas, ac mae angen sicrhau bod ei gwaith ym maes menywod a gweithrediad yn parhau. Bydd y siaradwyr yn cynnwys Yr Athro Angela V. John a'r Athro Deidre Beddoe.

Am wybodaeth cysylltwch â Rachel Lock-Lewis, ebost rachel-lewis@newport.ac.uk

Newyddion gan Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau

Yn yr adran newydd yma rydym yn bwriadu cynnwys archif, llyfrgell neu amgueddfa wahanol gyda newyddion perthnasol i *Llafur*, gan gynnwys rhestri o dderbynion neu arddangosfeydd.

Archifdy Morgannwg

Saithdeg mlynedd ers ei sefydlu, mae Archifdy Morgannwg yn gadael ei gartref gwreiddiol ar gyfer cyfleuster man eithaf y grefft sydd wedi ei adeiladu i'r diben, gyda diolch i ymdrechion cydweithredol ei chwech awdurdod cyllid. Mae'r gyllideb a grëwyd trwy'r bartneriaeth yma yn darparu ar gyfer yr adeilad, ei ddodrefni, y symud a'r paratoadau angenrheidiol.

Dechreuodd y gwaith ar y safle 4500 medr sgwâr, rhan o ddatblygiad Legwydd Caerdydd, ar Ddiwrnod Rhyngwladol Archifau 2008 a bydd wedi ei gyflawni erbyn diwedd 2009. Mae'r bloc storfa yn dal 15km o silffoedd ar bedwar llawr trwy'r defnydd o grynswth saerniol a chyfres o gelloedd byffer i inswleiddio'r ystordai oddi wrth amodau allanol a lleihau'r galw am system dymheru. Bydd y Casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gadw mewn tri safle gwahanol, ar gael ar unwaith ar yr un safle yma. Bydd darllenwyr yn gweithio o fewn amgylchedd gyfforddus a chyfarparedig, gyda staff wrth law o hyd i gynnig cymorth. Bydd yna ardal cynadledda ar gyfer gweithdai, darlithoedd a grwpiau sy'n ymweld â'r Archifdy. Yn ganolog i'r dyluniad y mae'r Stiwdio Cadwraeth, sydd i'w weld o'r fynedfa gyhoeddus, a lle bydd ymwelwyr yn gallu gweld dogfennau unigryw yn derbyn gofal a chael eu hatgyweirio. Mae yna gynlluniau ar droed i rannu arbenigedd a lle o fewn y stiwdio gyda chydweithwyr o fewn y sector treftadaeth ar draws y rhanbarth. Wrth baratoi i symud mae'r Casgliad yn cael ei becynnu a'i glustnodi gyda chôd-bar, ac mae catalog electronig yn cael ei greu.

Bydd y safle newydd yn codi ymwybyddiaeth o archifau gan ei fod drws nesa i stadiwm newydd Clwb Pel-Droed Dinas Caerdydd. Mae'n elwa o'r seilwaith a'r ffyrdd a grëwyd ar gyfer y stadiwm a'r parc manwerthu cyfagos, ac fe fydd yn cael ei wasanaethu gan drafnidiaeth cyhoeddus ardderchog. Bydd parcio hefyd ar gael ar y safle.

Os hoffech chi weld eich llyfrgell, archif neu amgueddfa yn cael ei chynnwys o fewn rhifyn nesaf y cylchlythyr, cysylltwch â ni.

Adran Lyfrau

Adolygiad: John Humphries, *Freedom Fighters: Wales's Forgotten War, 1963-1993* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2008).

Martin Wright

Mae natur gyffredinol heddychol cenedlaetholdeb Cymreig yn aml yn cael ei wrthgyferbynu â thraddodiad grym corfforol cenedlaetholdeb Gwyddelig, ac yn aml ystyrir nad yw Cymru fodern wedi profi yr hyn y gwnaeth Martin McGuiness ei alw unwaith yn 'the cutting edge' o drais gwleidyddol. Mae llyfr John Humphries yn cynnig atgof amserol mai dim ond hanner gwir yw hyn. Mae ei adroddiad ef o'r bomio a'r ymgyrchoedd llosgi o'r 1960au tan yr 1990au yn ceisio adfer y cof am y digwyddiadau o'r blynyddoedd aflonydd yma, sydd hyd yn hyn wedi eu gwthio i'r cyrion, gan roi iddynt safle mwy blaenllaw o fewn hanes Cymru. Gan ystyried yr hinsawdd gwleidyddol ar hyn o bryd, gellir awgrymu fod hyn yn fenter ddewr i'r awdur a'r cyhoeddwr, ac mae'r ddau yn haeddu canmoliaeth am wynebu'r elfen anodd yma o'n gorffennol agos.

Mae'r graddau y mae Humphries wedi llwyddo yn fater arall. Yn sicr, mae ei lyfr yn welliant ar adroddiad eithaf ffansiol Roy Clews o 1980, *To Dream of Freedom*. Yn wahanol i Clews, mae Humphries yn gwahaniaethu rhwng gweithgareddau trefnus a difrifol-ei-feddwl Mudiad Amddiffyn Cymru a champau pantomeim y *Free Wales Army*. Y mae hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn ag effaith yr ymgyrchoedd bomio ar bolisi y llywodraeth, a maint y gefnogaeth gymunedol a roddwyd i'w prif gymeriadau. Mae'r blynyddoedd sydd wedi mynd heibio ers cyhoeddi llyfr Clews yn cynnig cyd-destun newydd, sy'n gadael i Humphries wneud damcaniaethau pryfoclyd am y didoriannu rhwng yr ymgyrchoedd bomio cynnar a'r gweithredoedd llosgi hwyrach. Yn y cyd-destun hwn, mae llyfr Humphries yn arwydd fod y digwyddiadau yma o'n gorffennol agos, sydd i'w gweld nawr mewn adolwg dros drothwy datganoli, yn ymgartrefu yn ein hanes.

Er, fel gwaith hanes, mae gan lyfr Humphries gyfyngiadau. Yn wir, nid llyfr hanes confensiynol mohono. Gweithiodd Humphries i'r *Western Mail* yn ystod cyfnod y bomio, ac mae'n gwau elfennau o'i hunangofiant ei hun i'r naratif. Mae hyn yn dân ar groen y darllenydd ar adegau, ac mae rhywun yn dymuno gwybod ychydig mwy am y pwnc ac ychydig llai am John Humphries. Er, pan y mae'n canolbwyntio ar ei bwnc, mae'r gwaith yn hynod ddarllenadwy, ac mae cydymdeimlad amlwg yr awdur gyda'r 'ymladdwyr dros ryddid' yn ychwanegu awch fydd yn sicrhau y bydd yr ymatebion yn unrhyw beth ond yn niwtral.

Er gwaethaf llyfr Humphries, mae elfen helaeth o'r ymgyrchoedd yn parhau i fod dan ddamcaniaeth, ac ni ellir rhoi'r bai ar yr awdur am hyn. Mae natur ei bodolaeth yn sicrhau bydd hanes MAC yn aros yn anhryloyw. Ond ni ddylai hyn rwystro haneswyr. Beth bynnag eich barn ar y 'men of violence', ni ellir gwadu eu rhan fel gweithredwyr hanesyddol. Mae'r amser yn nesáu pan fydd haneswyr yn gallu rhoi sylw digonol a chyd-destunol i'r 'eithafwyr' o fewn hanes diweddar Cymru. Mae eu gweithredoedd yn ein cymell i ymchwilio i nifer o gwestiynau heriol sy'n berthnasol ar hyn o bryd am y berthynas rhwng trais gwleidyddol, cymdeithas a llywodraeth. Byddai gwaith llawn ac ysgolheigaidd ar y mater o werth. Nid yw llyfr John Humphries yn llwyr gymwys, ond mae'n ddarllenadwy ac yn ysgog dymunol ar gyfer y fath waith.



Adolygiad: Hywel Francis, *History on our Side: Wales and the 1984-85 Miners' Strike*

(Iconau, 2009)

Ben Curtis

Mae pump ar hugain o flynyddoedd ers streic y glowyr 1984-5 yn adeg amserol i adlewyrchu ar beth oedd yn un o'r anghydfodau diwydiannol mwyaf dramatig, hir a dadleuol yn hanes Prydain fodern. Mae Hywel Francis, fel hanesydd llafur adnabyddus a gweithredwr cefnogol dros achos y glowyr ym 1984-5, mewn lle da i ysgrifennu adroddiad o'r streic fel y datblygodd ym maes glo de Cymru.

Mae *History on our Side* yn gyfuniad o nifer o ysgrifau cynt Francis ar y pwnc, ynghyd â pheth deunydd newydd diddorol o'r dyddiadur a gadwodd yn ystod y streic. Bydd aelodau *Llafur* gyda chof hollgynhwysfawr o'r deunydd a gyhoeddir o fewn y Cylchgrawn yn adnabod ei draethawd o 1989 fel y graig y sefydlwyd y llyfr yma arni. Er nad yw hwn yn ddarn o waith hir ofnadwy, er gwaethaf hynny mae'n fanwl ac fe'i dadleuwyd yn glir. Mae *History on our Side* yn ychwanegiad derbyniol iawn i'r hanesyddiaeth syndod o brin ar lowyr de Cymru yn ystod diwedd yr ugeinfed ganrif, ac mae'n haeddu cael ei ddarllen yn eang.

Os hoffech gyfrannu adolygiad llyfr byr i rifyn nesaf y cylchlythyr cysylltwch â Stephanie Ward ar siw@aber.ac.uk



Angela V. John *Evelyn Sharp: Rebel Woman, 1869 – 1955* (MUP, 2009)

Hwn yw'r cofiant cyntaf a ysgrifennwyd ar Evelyn Sharp. Awdur poblogaidd ffuglen plant a newyddiadurwraig gyda'r *Manchester Guardian* am dros bedwar degawd, hi oedd y cyfranydd rheolaidd cyntaf i'w 'Women's Page' eiconaidd.

Cyn ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd hi'n swffragét blaenllaw, yn golygu y papur newydd, *Votes for Women*. Fe'i carcharwyd ddwywaith, a hi oedd y fenyw Brydeinig olaf i wrthod talu trethi gan nad oedd ganddi'r bleidlais. Mae'r cofiant yma yn tynnu ar gyhoeddiadau Evelyn Sharp ynghŷd â llythyron a dyddiaduron sy'n disgrifio'n fywiog brofiadau megis lliniaru newyn yn Sofiet Rwsia, bywyd dyddiol yn Kensington yn ystod y rhyfel a'i pherthynas gyda'r gohebydd rhyfel radicalaidd Henry W. Nevinson. Mae'r llyfr ar gael mewn clawr caled a chlawr meddal.

Ymwelwch â'n gwefan www.llafur.org am fanylion ar sut i brynu cyn-rifynnau o *Llafur* ac ar gyfer y diweddaraf ar gweithgareddau'r gymdeithas.